COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 24 MEHEFIN 2026 16:00

Presennol

Y Cynghorydd H T Bennett – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | E L P Caparros | O Clatworthy | RJ Collins |
| HJ David | C Davies | P Davies | S Easterbrook |
| M J Evans | P Ford | J Gebbie | RM Granville |
| H Griffiths | S J Griffiths | GC Haines | M L Hughes |
| D M Hughes | M Jones | W J Kendall | M Lewis |
| J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt | R J Smith | JC Spanswick |
| I M Spiller | T Thomas | G Walter | HM Williams |
| I Williams | MJ Williams | E D Winstanley | |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | F D Bletsoe | S J Bletsoe | N Clarke |
| N Farr | W R Goode | D T Harrison | RM James |
| M R John | RL Penhale-Thomas | A Ulberini-Williams | A Wathan |
| AJ Williams | R Williams | T Wood | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol |
| Kate Pask | Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol |
| David Wright | Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Carys Lord | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## 284. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jeff Tildesley, Cynghorydd Anthony Berrow a Cynghorydd Philip Jenkins. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

## 285. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cynghorydd Richard Williams ddatgan buddiant personol yn eitem 11, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pencoed.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Ian Spiller ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn Gynghorydd Cymuned Trelales.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Rhys Goode ddatgan buddiant personol yn eitem 12.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Melanie Evans ddatgan buddiant personol yn eitem 11, gan ei bod yn aelod o Gyngor Tref Pencoed.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Martin Williams ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Llanfair-y-Brid.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Elaine Winstanley ddatgan buddiant personol yn eitem 11, gan ei bod wedi gwneud rhywfaint o waith ar y mater hwnnw.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Timothy Thomas ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o ddau Gyngor Cymuned a grybwyllir yn yr adroddiad.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Mark John ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o ddau |

| | |
|---|---|
| | Gyngor Cymuned a grybwyllir yn yr adroddiad, Ynysawdre a Llanfair-y-Brîd.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Owain Clatworthy ddatgan buddiant personol yn eitem 11, gan ei fod yn gweithio i Dewis Cymru sy'n gweithio'n agos gyda'r Cyngor i gefnogi pobl ifanc ddigartref, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Jon-Paul Blundell ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Trelales.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Steven Bletsoe ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Timothy Wood ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Ian Williams ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Steven Easterbrook ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Alan Wathan ddatgan buddiant personol yn eitem 7, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Amanda Williams ddatgan buddiant personol yn eitem 12, gan ei bod yn aelod o Llais Cymru. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

## 286. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 11/03/2026 a 13/05/2026 fel rhai gwir a chywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

**287. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Aelodau Cabinet canlynol a'r Prif Weithredwr (doedd dim angen gwneud penderfyniadau/dim penderfyniadau wedi'u gwneud):<br><br>• Maer;<br>• Prif Weithredwr |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

**288. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (Nid oedd angen/ni wnaed unrhyw benderfyniadau). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

**289. Ymateb Asesiad Perfformiad y Panel**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Arweinydd y Cyngor, oedd cyflwyno ymateb drafft y Cyngor i argymhellion Asesiad Perfformiad y Panel a gynhaliwyd rhwng 16 a 19 Medi 2025 i'w ystyried a'i gymeradwyo, cyn y gellid ei gyhoeddi'n ffurfiol a'i ddosbarthu i'r derbynwyr statudol a nodwyd ym mharagraff 3.4.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch y canlynol:<br><br>• Dull y Cyngor o reoli risg ac a oedd hi'n bosibl i hynny rwystro ymdrechion i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad.<br><br>• Gwelliannau i'w gwneud ar unwaith oedd wedi eu cynllunio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid |

| | |
|---|---|
| | allweddol, a'r amserlen ar gyfer y gwelliannau hyn.<br><br>• Camau i'w cymryd gan y Cyngor i ddatgloi potensial o fewn y Cyngor oedd heb ei ddefnyddio<br><br>Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:<br><br>1. Cymeradwyo'r Ymateb drafft i Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel (Atodiad 2 i'r adroddiad)<br><br>2. Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel ym mis Medi 2025 (Atodiad 1) ac Ymateb y Cyngor i Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel (Atodiad 2) a'u dosbarthu i'r derbynwyr a nodwyd ym mharagraff 3.4. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

## 290. Adolygiad o Drefniadau Cymunedol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am geisiadau a dderbyniwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn penderfyniad y Cyngor ym mis Hydref 2025 i beidio â chymeradwyo'r Adroddiad Terfynol ar yr Adolygiad o Drefniadau Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch y canlynol:<br><br>• Ymdrechion parhaus i ymgysylltu â Chomisiwn Ffiniau Cymru.<br><br>• Amserlen ar gyfer y posibilrwydd o uno Cynghorau Cymuned Ynysawdre a Llanfair-y-Brîd.<br><br>Aeth y Prif Weithredwr i'r afael â'r cwestiynau hyn.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cyngor yn gwneud y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | 1. Nodi’r y ceisiadau a dderbyniwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned<br><br>2. Nodi, er nad oes digon o amser i gynnal yr adolygiadau fel y gofynnwyd gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Cymuned Ynysawdre a Chyngor Cymuned Llanfair-y-Brîd ar hyn o bryd, yr edrychir i mewn i ddewisiadau pellach dros yr Haf ac yr adroddir yn ôl i'r Cyngor yn yr Hydref.<br><br>3. Nodi’r cais gan Gyngor Cymuned Trelales a chymeradwyo cychwyn y broses adolygu yn unol â'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

## 291. Alldro Cyllideb Refeniw 2025-26

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Cyngor yn nodi'r sefyllfa alldro refeniw ar gyfer 2025-26. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

## 292. Diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau a Rheolau Gweithdrefn Contractau

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol, oedd i'r Cyngor gymeradwyo'r gwelliant i swyddogaethau'r cyngor o fewn y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau a nodi Rheolau diwygiedig y Weithdrefn Gontractau.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn gwneud y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | 1. Cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau diwygiedig (Atodiad 1) mewn perthynas â swyddogaethau'r cyngor;<br>2. Nodi y bydd y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i ymgorffori Rheolau diwygiedig y Weithdrefn Gontractau (Atodiad 2) yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet a diwedd y cyfnod galw i mewn. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

## 293. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol, oedd hysbysu'r Cyngor am Adroddiad Gwybodaeth oedd i'w nodi oedd wedi'i gyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf a drefnwyd.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 uchod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

## 294. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Y Cynghorydd Ian Williams at yr Arweinydd (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Williams a atebwyd yn y cyfarfod.<br><br>Y Cynghorydd Alex Ulberini-Williams at yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Ulberini-Williams a atebwyd yn y cyfarfod.<br><br>Y Cynghorydd Owain Clatworthy at y Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol). |

| | |
|---|---|
| | Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Clatworthy a atebwyd yn y cyfarfod.<br><br>Y Cynghorydd Timothy Thomas at yr Arweinydd (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas a atebwyd yn y cyfarfod.<br><br>Y Cynghorydd Martin Williams at yr Arweinydd (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Williams a atebwyd yn y cyfarfod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

**295. Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y:**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bu’r aelodau'n trafod yr Hysbysiad o Gynigion fel y manylwyd yn eitem 12 ar agenda cyfarfod heddiw.<br><br>Rhoddodd y Cynghorydd Penhale-Thomas ddatganiad yn amlinellu gwelliant arfaethedig i'r Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Blundell i fewnosod pwynt newydd, fel a ganlyn-<br><br>“Bod y Cyngor yn cydnabod bod yr adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol yng Nghymru yn cael eu llunio'n sylfaenol gan drefniadau ariannu Llywodraeth y DU ac yn galw am barhau i ddiwygio fformiwla Barnett i sicrhau bod Cymru'n derbyn lefel deg o gyllid sy'n seiliedig ar anghenion.<br><br>Ochr yn ochr â theulu llywodraeth leol yng Nghymru, cefnogi llywodraeth newydd Cymru mewn unrhyw drafodaethau gyda llywodraeth y DU sy'n ceisio mynd i'r afael â than-ariannu hanesyddol a fyddai, pe bai'n cael ei wireddu, yn arwain at arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru.”<br><br>Gwrthododd y Cynghorydd Blundell dderbyn y gwelliant a gynigiwyd ond cynigiodd weithio gyda'r Cynghorydd Penhale-Thomas y tu allan i'r cyfarfod ar Gynnig ar wahân ar bwnc fformiwla Barnett.<br><br>Amlinellodd yr Aelodau eu barn ar y Cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Blundell a'r gwelliant arfaethedig, gan ofyn am rannu unrhyw ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru gyda'r holl Aelodau. |

| | |
|---|---|
| | Yna cynhaliwyd pleidlais lafar ar y gwelliant i'r cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Penhale-Thomas, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn<br><br>O blaid (y gwelliant) - 28<br><br>Yn erbyn - 17<br><br>Atal pleidlais – 1<br><br>PENDERFYNWYD: Cefnogi’r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Blundell.<br><br>Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant ddatganiad yn amlinellu gwelliant arfaethedig i'r Rhybudd o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Clatworthy i fewnosod y pwynt ychwanegol canlynol o dan “Mae'r Cyngor Hwn yn Nodi:”, fel a ganlyn-<br><br>“Bod lledaenu camwybodaeth yn fwriadol neu’n ddi-hid gan Aelodau Etholedig yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol, yn niweidio ymddiriedaeth mewn sefydliadau cyhoeddus ac yn mynd yn groes o bosibl i Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan, yn enwedig egwyddorion gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd ac arweinyddiaeth.”<br><br>Yn ogystal, roedd y gwelliant yn cynnig mewnosod y penderfyniad newydd canlynol ar ôl penderfyniad 3 ac ail-rifo’r penderfyniadau dilynol yn unol â hynny, fel a ganlyn-<br><br>“4. Cytuno y bydd unrhyw honiad bod Aelod Etholedig wedi lledaenu gwybodaeth anghywir neu gamwybodaeth yn fwriadol neu’n ddi-hid mewn perthynas â busnes y Cyngor, llywodraethiant y Cyngor, Aelodau Etholedig, Swyddogion neu faterion sy’n effeithio ar enw da’r Cyngor yn cael ei gyfeirio’n awtomatig at y Swyddog Monitro i’w ystyried yn ffurfiol o dan God Ymddygiad yr Aelodau fel toriad posibl ar Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan, a’i gyfeirio ymlaen wedyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru lle bo’n briodol.”<br><br>Rhoddodd y Cynghorydd Penhale-Thomas ddatganiad yn amlinellu gwelliant arfaethedig i'r Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Clatworthy i fewnosod pwynt newydd ar ôl rhif 3, fel a ganlyn- |

| | |
|---|---|
| | “I gydnabod bod yr hawl i ryddid barn yn cyd-fynd â chyfrifoldebau. Dylai Aelodau Etholedig arfer yr hawl honno gyda gofal a pharch, yn enwedig mewn cyfathrebiadau cyhoeddus a phob cyfrwng cymdeithasol, gan sicrhau nad yw iaith yn tanio rhaniad nac yn cyfrannu at yr amgylchedd gelyniaethus y mae'r Cynnig hwn yn ceisio mynd i'r afael ag ef.”<br><br>Amlinellodd yr aelodau eu barn ar y Cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Clatworthy yn ogystal â'r ddau welliant arfaethedig. Mynegwyd pryderon ynghylch defnyddio'r term 'gwybodaeth anghywir' yn y gwelliant arfaethedig cyntaf gan nad oes ganddo ddiffiniad cyfreithiol unigol.<br><br>Yna cynhaliwyd pleidlais lafar ar y gwelliant cyntaf i'r cynnig a gynigiwyd gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:-<br><br>O blaid (y gwelliant) -15<br><br>Yn erbyn - 31<br><br>Atal pleidlais - 0<br><br>Cynhaliwyd pleidlais codi dwylo ar yr ail welliant i'r cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Ross Thomas, a chafodd ei basio.<br><br>Lluniodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol fersiwn newydd o'r Cynnig yn ymgorffori'r ddau welliant, fel a ganlyn-<br><br>Mae’r Cyngor hwn yn nodi:<br><br>• Ein bod ni ledled Prydain yn gweld diwylliant cynyddol o fygwth, cam-drin gwleidyddol a gelyniaeth tuag at bobl sy’n dal safbwyntiau gwahanol.<br><br>• Na all democratiaeth weithredu'n iawn os yw pobl gyffredin yn cael eu gweiddi i lawr, eu bygwth neu eu dychryn am fynegi barn gyfreithlon.<br><br>• Bod trais gwleidyddol, bygwth ac aflonyddu yn erbyn cynghorwyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr, newyddiadurwyr neu aelodau'r cyhoedd yn gwbl annerbyniol waeth beth fo'u cysylltiad gwleidyddol. |

| | |
|---|---|
| | • Bod llawer o bobl weddus bellach yn cael eu digalonni rhag mynd i fywyd cyhoeddus oherwydd bod gwleidyddiaeth wedi mynd yn fwyfwy gwenwynig a gelyniaethus.<br><br>• Mae Prydain wedi ei hadeiladu ar ryddid barn, dadl ddemocrataidd a'r hawl i anghytuno'n heddychlon.<br><br>• Mae dadl gref yn iach mewn democratiaeth, ond nid felly bygwth a thrais gwleidyddol.<br><br>• Ni ddylai neb wynebu bygythiadau, camdriniaeth na cheisiadau i'w tewi am ddal safbwyntiau gwleidyddol prif ffrwd yn unig.<br><br>• Mae gan gynghorwyr ddyletswydd i arwain drwy esiampl a chynnal dadl ddemocrataidd barchus, hyd yn oed lle mae barn yn amrywio'n gryf, gan gynnwys dangos cwrteisi cyffredin tuag at ei gilydd.<br><br>• Bod lledaenu gwybodaeth anghywir neu gamwybodaeth yn fwriadol neu'n ddi-hid gan aelodau etholedig yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol, yn niweidio ymddiriedaeth mewn sefydliadau cyhoeddus, ac yn mynd yn groes o bosibl i Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan, yn enwedig egwyddorion Gonestrwydd, Uniondeb, Atebolrwydd ac Arweinyddiaeth.<br><br>Mae’r Cyngor hwn yn penderfynu:<br><br>1. Condemnio pob math o drais gwleidyddol, bygythiad, aflonyddu ac ymdrechion i dewi mynegiant democrataidd cyfreithlon.<br>2. Ailgadarnhau cefnogaeth y Cyngor hwn i ryddid barn, dadl agored a chyfranogi democrataidd.<br>3. Annog pob aelod etholedig i hyrwyddo ymddygiad parchus ar-lein ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus hefyd.<br>4. Cydnabod bod yr hawl i ryddid barn yn cyd-fynd â chyfrifoldebau: dylai aelodau etholedig arfer yr hawl honno gyda gofal a pharch, yn enwedig mewn cyfathrebiadau cyhoeddus ac ar y cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau nad yw'r iaith a ddefnyddir yn ennyn rhaniadau nac yn cyfrannu at yr amgylchedd gelyniaethus y mae'r cynnig hwn yn ceisio mynd i'r afael ag ef.<br>5. Cytuno y bydd unrhyw honiad bod aelod etholedig wedi lledaenu gwybodaeth anghywir neu gamwybodaeth yn fwriadol neu'n ddi-hid mewn perthynas â busnes y Cyngor, llywodraethiant y Cyngor, aelodau etholedig, swyddogion, neu faterion sy'n effeithio ar enw da'r Cyngor yn cael ei |

| | |
|---|---|
| | gyfeirio'n awtomatig at y Swyddog Monitro i'w ystyried yn ffurfiol o dan God Ymddygiad yr Aelodau fel toriad posibl ar Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan, ac yn cael ei gyfeiriad ymlaen at Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru pan fo'n briodol.<br><br>6. Gweithio gyda Heddlu De Cymru pan fo angen i sicrhau bod bygythiadau neu ymdrechion i godi ofn ar gynghorwyr, swyddogion neu aelodau'r cyhoedd yn cael eu trin o ddifrif.<br><br>7. Hyrwyddo diwylliant lle mae trigolion yn teimlo'n hyderus i fynegi eu barn yn agored heb ofni camdriniaeth na bygythiad.<br><br>8. Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn mynegi pryder ynghylch yr elyniaeth gynyddol mewn bywyd cyhoeddus ac yn galw am gamau cryfach i amddiffyn cyfranogi democrataidd a mynegiant rhydd."<br><br>Yna cynhaliwyd pleidlais lafar ar y cynnig yn ymgorffori'r ddau welliant gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant a'r Cynghorydd Penhale-Thomas, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:-<br><br>O blaid (y gwelliant) – 15<br><br>Yn erbyn – 31<br><br>Atal pleidlais - 0<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Cefnogi'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Clatworthy, ac a gafodd ei ddiwygio ddwywaith.<br><br>Amlinellodd yr aelodau eu barn ar y Cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Penhale-Thomas, oedd yn nodi'r diffyg tryloywder yn y broses ar gyfer symud gwasanaethau o fewn GIG Cymru ac atebolrwydd Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morganwg. Roedd cyfarfodydd gyda Phrif Weithredwr y bwrdd i drafod pryderon wedi cael eu canslo ar fyr rybudd. Trafodwyd hefyd y camau nesaf yn dilyn y cynnig i sicrhau bod pryderon trigolion y Fwrdeistref Sirol yn cael eu cynrychioli'n briodol.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u> Cefnogi'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Penhale-Thomas. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

## 296. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mehefin 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 19:04